# PAPURAU BUSNES

## Rhan 1 - Adran F

### Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 5 Hydref 2000

### i'w hateb ar 12 Hydref 2000

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Phlant

**1. Phil Williams (Dwyrain De Cymru):** Faint o'r £13.7 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd i Awdurdodau Addysg Lleol ar gyfer ailstrwythuro cyflogau athrawon y bwriedir ei ddefnyddio ar gyfer codi cyflogau uwch reolwyr. (OAQ7137)

**2. Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Pa gamau y mae'n eu cymryd i leihau'r baich gwaith papur ar athrawon. (OAQ7157)

**3. Pauline Jarman (Canol De Cymru):** A yw wedi cael unrhyw drafodaethau ag Awdurdodau Lleol yngln â lefel y cyllid sydd ei angen ar gyfer y raddfa arwain. (OAQ7133)

**4. Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** A yw wedi cael unrhyw drafodaethau â CLlLC yngln â'r adroddiad diweddar ar ddiwygiadau posib i drefn y flwyddyn ysgol. (OAQ7088)

**5. Brian Hancock (Islwyn):** Sut y bydd yn sicrhau na fydd ysgolion ag anghenion mawr o ran cludiant yn dioddef yn ariannol. (OAQ7141)

**6. Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** Pa sylwadau y mae wedi'u derbyn mewn perthynas â drafft y Cod Ymarfer ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig. (OAQ7089)

**7. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A all wneud datganiad ar unrhyw ddatblygiadau tuag at gomisiynu cynllun peilot ar gyfer Baccalaureate Cymreig. (OAQ7129)

**8. Elin Jones (Ceredigion):** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael â chyrff yng Nghymru mewn perthynas â chyflwyno astudiaeth beilot ar gyfer Baccalaureate Cymreig. (OAQ7131)

**9. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** Beth mae'n ei wneud i sicrhau bod Awdurdodau Addysg

Lleol yn gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Iechyd ar draws Cymru. (OAQ7134)

**10. Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Sawl ysgol sydd wedi cau yng Nghymru ers mis Mai 1997. (OAQ7158)

**11. Christine Humphreys (Gogledd Cymru):** A wnaiff wneud datganiad i roi'r newyddion diweddaraf ar ddatblygiadau yn dilyn y dyfarniad yn achos yr NUT ar Dâl Rheoli Perfformiad i athrawon. (OAQ7156)

**12. Phil Williams (Dwyrain De Cymru):** Sut mae'r raddfa arwain yn cael ei hariannu. (OAQ7136)

**13. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o athrawon sydd wedi dioddef ymosodiadau a throseddau eraill ar dir ysgolion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. (OAQ7051)

**14. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff wneud datganiad ar fentrau i leihau baich gwaith papur ar athrawon. (OAQ7204)

**15. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** Pa ddeddfwriaeth a ddefnyddir i gyflwyno Rheoli Perfformiad yng Nghymru. (OAQ7138)

**16. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro):** A oes ganddi unrhyw gynlluniau i gyflwyno Baccalaureate Cymreig. (OAQ7127)

**17. Dafydd Wigley (Caernarfon):** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth yngln â datblygiad proffesiynol a strwythur cyflogau athrawon Cymru. (OAQ7148)

**18. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff ystyried cyflwyno Menter Ysgol Steiner Caerdydd, "The Fountain School" yng nghynllun peilot 2001 i ariannu Ysgolion Cymdeithas Steiner. (OAQ7159)

**19. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** I ba raddau y mae deunyddiau addysgu dwyieithog ar gamddefnyddio sylweddau ar gael mewn ysgolion. (OAQ7135)

**20. Geraint Davies (Rhondda):** Beth yw rôl TASau wrth wella perfformiad addysgol yng Nghymru. (OAQ7149)

**21. Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff wneud datganiad ar ddarpariaeth ieithoedd tramor modern yng Nghymru. (OAQ7100)

**22. Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A wnaiff wneud datganiad ar ariannu'r cynllun arwain ar gyfer athrawon. (OAQ7105)

**23. Janet Davies (Gorllewin De Cymru):** A yw'n bwriadu cyflwyno system Ymddeol Cynnar i

Benaethiaid Ysgolion yng Nghymru. (OAQ7144)

**24. Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A yw maint dosbarthiadau uwchradd wedi cynyddu neu ostwng ers sefydlu'r Cynulliad. (OAQ7060) **TYNNWYD YN OL**

**25. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff wneud datganiad ar unrhyw adnoddau newydd sydd wedi'u clustnodi ar gyfer ysgolion Cymru. (OAQ7050)

**26. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A all wneud datganiad ar y datblygiadau diweddar ar Reoli Perfformiad athrawon ac Asesiadau Trothwy. (OAQ7145)

**27. David Davies (Trefynwy):** Beth mae'n ei wneud i amddiffyn hawliau athrawon sy'n cael eu cyhuddo o ymosod ar ddisgyblion. (OAQ7090)

**28. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a DInefwr):** A yw wedi cael unrhyw drafodaethau â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth yngln â thâl perfformiad i athrawon. (OAQ7146)

**29. David Melding (Canol De Cymru):** A yw cymarebau disgyblion athrawon yn is neu'n uwch na 1997. (OAQ7058) **TYNNWYD YN OL**

**30. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff adolygu'r meini prawf a ddefnyddir gan Estyn wrth arolygu ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth i amgylchiadau unigol ysgolion, y gwerth a ychwanegir at berfformiad disgyblion a'u bod yn cymharu tebyg at ei debyg wrth asesu perfformiad. (OAQ7054) R

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Amaethyddiaeth.

**1. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynlluniau sydd gan yr Ysgrifennydd i ymgorffori goblygiadau datblygiad cynaliadwy o fewn polisïau pob Pwyllgor Pwnc a phob adran llywodraethol yng Nghymru. (OAQ7231)

**2. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar dreialon GM pellach yn y maes yng Nghymru. (OAQ7222)

**3. Lynne Neagle (Tor-faen);** Pa drafodaethau y mae wedi’u cael gyda chymdeithasau pysgotwyr yng Nghymru ynghylch y tymor cau ar gyfer pysgota ar gamlesi. (OAQ7182)

**4. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa gynlluniau sydd ganddo i gynyddu’r arian ar gyfer y cynllun Tir Gofal. (OAQ7045)

**5. Christine Humphreys (Gogledd Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar ddyfodol y Cwmni Cig Cymreig. (OAQ7175)

**6. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Pa gamau y mae'n eu cymryd i ddatblygu economi cefn gwlad. (OAQ7221)

**7. Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** Pryd cyfarfu ddiwethaf â chynrychiolwyr y prif archfarchnadoedd i drafod pris llaeth. (OAQ7097)

**8. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa rôl y mae Tir Gofal yn ei chwarae i hyrwyddo hawliau tramwy'r cyhoedd a faint o gynlluniau hawliau tramwy newydd y cafwyd cytundeb arnynt. (OAQ7079)

**9. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Sut mae'n bwriadu mynd â'r penderfyniad a wnaed gan y Cynulliad ar 14 Medi 2000 i sefydlu Pwyllgor Datblygu Cynaliadwy yn ei flaen. (OAQ7044)

**10. Geraint Davies (Rhondda);** A yw'n bwriadu cyflwyno cynllun ar gyfer ffermwyr ifainc newydd. (OAQ7207)

**11. Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff ddatganiad ar unrhyw geisiadau am arian Amcan 1 sydd gyda'r bwriad o sefydlu ffatrïoedd prosesu cig a llaeth yng nghefn gwlad Cymru. (OAQ7224)

**12. Christine Chapman (Cwm Cynon);** A yw wedi cael unrhyw drafodaethau gydag Ysgrifennydd Amaeth y DU ynghylch y Fenter i Ddiwygio'r Polisi Amaethyddiaeth Cyffredin. (OAQ7093)

**13. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** Pa gamau y mae wedi'u cymryd i bennu polisi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Gnydau sydd wedi'u Haddasu'n Enetig gyda MAFF a'r DETR. (OAQ7223)

**14. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar y cynnydd mewn gwariant yng nghefn gwlad y cafwyd adroddiadau arno yn y wasg ar 5 Hydref. (OAQ7217)

**15. Pauline Jarman (Canol De Cymru);** A yw wedi cael trafodaethau gyda MAFF ynghylch effeithiau'r tâl a godir am gynnal Archwiliadau Hylendid Cig ar ladd-dai bychain. (OAQ7215)

**16. Gareth Jones (Conwy);** A oes gan yr Ysgrifennydd unrhyw gynlluniau i hyrwyddo hyfforddiant mewn defnyddio technoleg gwybodaeth i ffermwyr a busnesau cefn gwlad. (OAQ7226) [W]

**17. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Sut mae'r Ysgrifennydd yn bwriadu gweithredu'r penderfyniad ynghylch cnydau GM a gymerwyd gan y Cynulliad ar 24 Mai. (OAQ7219) [W]

**18. Michael German (Dwyrain De Cymru);** Faint o gig o Gymru sy'n cael ei werthu i'r Weinyddiaeth Amddiffyn. (OAQ7180)

**19. David Davies (Mynwy);** A fydd yn argymell cynnwys gochelion newydd yn y ddeddfwriaeth hawliau tramwy yn dilyn adroddiadau ei bod yn bosibl mai cerddwr a fwydodd frechdan ham i fochyn oedd yn gyfrifol am yr achos diweddar o Dwymyn y Moch. (OAQ7092)

**20. Brian Hancock (Islwyn);** A wnaiff ddatganiad ar hynt y Cynllun Datblygu Gwledig yn y Comisiwn Ewropeaidd. (OAQ7210).

**21. Gareth Jones (Conwy);** Pa gamau y mae’n eu cymryd i gynyddu adnoddau cysylltiadau gwybodaeth technoleg yn y Gymru wledig. (OAQ7225) [W]

**22. Helen Mary Jones (Llanelli);** A wnaiff ddatganiad i egluro ble mae llywodraeth Cymru yn sefyll ar fater tyfu a marchnata Organebau wedi’u Haddasu’n Enetig. (OAQ7208)

**23. William Graham (Dwyrain De Cymru);** Pa gamau y mae’n eu cymryd i amddiffyn ffermwyr Cymru rhag effaith y cynnydd ym mhris gwrteithiau yng Nghymru. (OAQ7195)

**24. Karen Sinclair (De Clwyd);** A wnaiff ddatganiad byr ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran Cig Llo Cymru. (OAQ7181)

**25. William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar newid pwyslais cymorthdaliadau uniongyrchol o gynhyrchu bwyd i gynlluniau amgylcheddol. (OAQ7196)

**26. Helen Mary Jones (Llanelli);** I ba raddau y mae wedi mabwysiadu blaenoriaethau cyllideb y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. (OAQ7205)

**27. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynrychiolaethau y mae wedi’u cael ynghylch defnyddio tir fferm y mae’r Comisiwn Coedwigaeth yn berchen arno ar gyfer hyfforddiant milwrol yng Nghymru. (OAQ7062)

**28. Mick Bates (Maldwyn);** Pa gamau y mae wedi eu cymryd i leihau’r achosion o’r clafr yng Nghymru. (OAQ7178) [R]

**29. Brian Hancock (Islwyn);** A yw wedi amlinellu safbwynt Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Organebau wedi’u Haddasu’n Enetig i Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a’r Rhanbarthau. (OAQ7212)

**30. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);** A yw’n bwriadu hyrwyddo’r defnydd o’r Cynllun Gwarantu Benthyciad i fusnesau bychan i helpu’r sector amaethyddol yng Nghymru i arallgyfeirio. (OAQ7216)